CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 143 (Cy.15)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992 ("y prif Reoliadau") sy'n rheoleiddio'r telerau y mae meddygon yn darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r rhestr yn Atodlen 10 i'r prif Reoliadau, sy'n rhestru cyffuriau a sylweddau eraill na cheir eu rhagnodi i'w cyflenwi tra'n darparu gwasanaethau fferyllol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, drwy dynnu cynhyrchion mwcolytig geneuol penodedig.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Atodlen 11 i'r prif Reoliadau, sy'n rhestru'r cyffuriau a'r sylweddau eraill y gellir eu rhagnodi mewn amgylchiadau penodol yn unig yng nghwrs gwasanaethau fferyllol a ddarperir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Mae Rheoliad 3(a) yn tynnu cynhyrchion mwcolytig geneuol penodedig oddi ar y rhestr yn Atodlen 11 ac mae rheoliad 3(b) yn ychwanegu Tadalafil (Cialis) ati.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 143 (W.15)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service (General Medical Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations further amend the National Health Service (General Medical Services) Regulations 1992 ("the principal Regulations") which regulate the terms on which doctors provide general medical services under the National Health Service Act 1977.

Regulation 2 amends the list in Schedule 10 to the principal Regulations, which lists drugs and other substances that may not be prescribed for supply in the course of pharmaceutical services provided under the National Health Service Act 1977, by removing specified oral mucolytic products.

Regulation 3 amends Schedule 11 to the principal Regulations, which lists drugs and other substances that may only be prescribed in certain circumstances in the course of pharmaceutical services provided under the National Health Service Act 1977.

Regulation 3(a) removes specified oral mucolytic products from, and regulation 3(b) adds Tadalafil (Cialis) to, the list in Schedule 11.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 143 (Cy.15)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *28 Ionawr 2003* |
| *Yn dod i rym* | *1 Chwefror 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 29 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**a**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003, a deuant i rym ar 1 Chwefror 2003.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992(**b**).

(a) 1977 p.49; *gweler* adran 128(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i), a chan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), Atodlen 4, paragraff 38(2)(b), i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

Estynnwyd adran 29 gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49), adran 17; a'i diwygio gan Ddeddf Gwasanaethau Iechyd 1980 (p.53), adrannau 1 a 7 ac Atodlen 2, paragraff 16(a); gan O.S.1985/39, erthygl 7(3); gan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17), Atodlen 1 paragraff 18 a chan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p. 46), Atodlen 2, paragraff 8.

Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2) a chan Ddeddf 1999, Atodlen 4, paragraff 37(6).

Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 29 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1999, adran 66(5).

(b) O.S..1992/635; Yr offerynnau perthnasol yw OS 1992/2412, 1993/2421, 1994/2620, 1997/981, 2000/187 (Cy.133), 2001/1788 (Cy.129), 2002/1804 (Cy.174)[ ]

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 143 (W.15)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service (General Medical Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

| | |
|---|---|
| *Made* | *28th January 2003* |
| *Coming into force* | *1st February 2003* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 29 and 126(4) of the National Health Service Act 1977(**a**) hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations may be cited as the National Health Service (General Medical Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2003 and shall come into force on 1st February 2003.

(2) In these Regulations "the principal Regulations" ("*y prif Reoliadau*") means the National Health Service (General Medical Services) Regulations 1992(**b**).

(a) 1977 c.49; *see* section 128(1) as amended by the National Health Service and Community Care Act 1990 (c.19) ("the 1990 Act"), section 26(2)(g) and (i), and by the Health Act 1999 (c.8) ("the 1999 Act"), Schedule 4, paragraph 38(2)(b), for the definitions of "prescribed" and "regulations".

Section 29 was extended by the Health and Medicines Act 1988 (c.49), section 17; and amended by the Health Services Act 1980 (c.53), sections 1 and 7 and Schedule 2, paragraph 16(a); by S.I. 1985/39, article 7(3); by the Health Authorities Act 1995 (c.17), Schedule 1, paragraph 18 and by the National Health Service (Primary Care) Act 1997 (c.46), Schedule 2, paragraph 8.

Section 126(4) was amended by the 1990 Act, section 65(2) and the 1999 Act, Schedule 4, paragraph 37(6).

The functions of the Secretary of State under sections 29 and 126(4) of the National Health Service Act 1977 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, as amended by the 1999 Act, section 66(5).

(b) S.I. 1992/635; relevant amending instruments are S.I. 1992/2412, 1993/2421, 1994/2620, 1997/981, 2000/187 (W.133), 2001/1788 (W.129), 2002/1804 (W.174).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygio Atodlen 10 i'r prif Reoliadau**

**2.** Yn Atodlen 10 i'r prif Reoliadau (cyffuriau a sylweddau eraill nad ydynt i'w rhagnodi i'w cyflenwi o dan wasanaethau fferyllol) hepgorir y cofnodion canlynol-

" Fabrol Granules

Fluimucil Granules

Methylcisteine Tablets 100mg

Mucodyne Capsules

Mucodyne Syrup

Mucodyne Forte Syrup

Mucodyne Forte Tablets

Mucodyne Paediatric Syrup

Visclair Tablets".

**Diwygio Atodlen 11 i'r prif Reoliadau**

**3**. Yn Atodlen 11 i'r prif Reoliadau (cyffuriau i'w rhagnodi o dan wasanaethau fferyllol mewn amgylchiadau penodol yn unig), hepgorir -

(a) y cofnodion sy'n ymwneud â'r canlynol-

(i) Gronynnau Acetylcysteine, a

(ii) Carbocisteine

a

(b) ar ôl "Apomorphine Hydrochloride (Uprima)" yng ngholofnau 1 a 2 yn eu trefn, mewnosodwch

" , Tadalafil (Cialis)" .

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

28 Ionawr 2003

(3) These Regulations apply to Wales only.

**Amendment of Schedule 10 to the principal Regulations**

**2.** In Schedule 10 to the principal Regulations (drugs and other substances not to be prescribed for supply under pharmaceutical services) the following entries shall be omitted-

" Fabrol Granules

Fluimucil Granules

Methylcisteine Tablets 100mg

Mucodyne Capsules

Mucodyne Syrup

Mucodyne Forte Syrup

Mucodyne Forte Tablets

Mucodyne Paediatric Syrup

Visclair Tablets".

**Amendment of Schedule 11 to the principal Regulations**

**3**. In Schedule 11 to the principal Regulations (drugs to be prescribed under pharmaceutical services only in certain circumstances) -

(a) the entries relating to-

(i) Acetylcysteine granules, and

(ii) Carbocisteine

shall be omitted, and

(b) after "Apomorphine Hydrochloride (Uprima)" in columns 1 and 2 respectively, insert

" , Tadalafil (Cialis)" .

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

28th January 2003

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2003 Rhif 143 (Cy.15)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2003 No. 143 (W.15)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (General Medical Services) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

©© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090635-7

9 780110 906355

**£1.75**

W24/02/03 ON